# Y Pwyllgor Menter a Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 14 Mawrth 2012** |
| Amser: | **09:02 – 11:29** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400001_14_03_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Nick Ramsay (Cadeirydd)**<br>**Byron Davies**<br>**Keith Davies**<br>**Julie James**<br>**Alun Ffred Jones**<br>**Eluned Parrott**<br>**Gwyn R Price (yn lle David Rees)**<br>**Ken Skates**<br>**Joyce Watson**<br>**Leanne Wood** |
| Tystion: | **Alec Don, Prif Weithredwr, Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau**<br>**Matthew Kennerley, Cyfarwyddwr Porthladd, De Cymru – Cymdeithas Porthladdoedd Prydain**<br>**Ian Davies, Cyfarwyddwr Llwybr Coridor y De – Stena Line**<br>**Edwina Hart, Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, Minister for Business, Enterprise, Technology and Science**<br>**James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Director General BETS** |
| Staff y Pwyllgor: | **Siân Phipps (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Andrew Minnis (Ymchwilydd)**<br>**Ben Stokes (Ymchwilydd)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan David Rees AC. Roedd Gwyn Price AC yn dirprwyo ar ei ran.

## 2. Ymchwiliad i gysylltedd rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr Cymru - Sesiwn dystiolaeth

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Alec Don a Mark Andrews o Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau, Matthew Kennerley o Gymdeithas Porthladdoedd Prydain a Ian Davies o Stena Line i'r cyfarfod. Bu'r Aelodau'n holi'r tystion.

Cytunodd Matthew Kennerley i ddarparu copi o lyfryn am barciau ynni yn ne-orllewin Lloegr i Aelodau.

## 3. Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog - y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

3.1 Croesawodd y Cadeirydd y Gweinidog a'i swyddogion i'r cyfarfod. Bu'r Aelodau'n holi'r Gweinidog.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn am y canlynol:

- Dehongliad y Llywodraeth o'r ffigurau cynnyrch mewnwladol crynswth diweddaraf, a chyd-destun ehangach y ffigurau sy'n ymwneud â chyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd.

- Yr amodau sy'n effeithio ar yr arian cyfatebol ar gyfer gwahanol raglenni ariannu Llywodraeth Cymru a'r UE.

- Y diffiniad o "werth am arian" a sut y cafodd ei asesu o fewn eich gwerthusiad o Gronfa Twf Economaidd Cymru a'i effaith ar yr economi - pan fydd ar gael.

- Cytunodd y Gweinidog i rannu gyda'r Pwyllgor yr ymarfer sydd bron a chael ei gwblhau sef pennu'r llinellau sylfaen a'r targedau y bydd ei hadran yn cael eu mesur yn eu herbyn.

Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am ymateb ysgrifenedig i'r cwestiynau nas gofynnwyd yn ystod y sesiwn.

## Trawsgrifiad

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#).